WG35. S. 126

*D.S. Rhoddir yr elw at gynnal y Weddw a'r Amddifaid.*

# MARWNAD,

ER COFFADWRIAETH AM

# JOHN MALIPHANT,

Un o Ddiaconiaid yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Ngharmel, Cendl,

*Yr hwn a hunodd yn yr Iesu Medi* 14, 1847.

## GAN EVAN EVANS.

1. Beth yw'r dagrau welai'n Ngharmel?
   Beth yw'r ochain dwys a syn?
   Beth yw'r cwynfan gan y dyrfa?
   Beth yw'r gwisgoedd duon hyn?
   Pa'm mae prudd-der yn toi cannoedd?
   Pa'm mae galar trwy'r holl dy?
   A wnaeth angau flin rwygiadau
   Eto'n rhesau'r ffyddlon lu?

2. P'le mae MALIPHANT, wr ffyddlon?
   Pa'm yn wag y mae ei sedd,
   Ger y bwrdd, islaw y pulpyd?
   Pa'm na welir yno'i wedd?
   Pa'm mae arall ar y grisiau
   Yn cyhoeddi'r cyrddau oll?
   P'le mae 'mrawd? a ph'le mae 'nghyfaill?
   Pa'm yn awr mae ef ar goll?

3. Prin y sychwyd dagrau'r Eglwys
   Ar ol Edward Raynallt fwyn,
   Cyn ei gwlychu â deigr genlli,
   Am John Phillips borthai'r wyn:
   'Mhell cyn sychu 'rhai'ny eilwaith
   Wele alaeth newydd syn,
   Colli'n dra annysgwyliadwy
   Frawd mor ffyddlon a'r rhai hyn.

4. Brawd gysegrodd fore'i ddyddia,
   Yn nghynteddau ty ei Dduw

X20531 P.48

Er yn ddeuddeng mlwydd o oedran,
Bu'n ddigwymp tra fu e byw :
Bu yn swyddog lawer blwyddyn,
Mewn gwir ofal llanwai 'i le ;
Tangnefeddwr oedd bob amser,
Chwalai'n gall bob storom gre'.

5. Ei ffyddlondeb gyda'r moddion
Oedd yn syndod i bob rhai ;
Ai i'r bregeth, a'r cwrdd gweddi,
At y cleifion âi i'w tai ;
I'r gyfeillach elai'n gyson,
Cadwai'r ysgol Sul yn mla'n ;
Cyson yn y cwrdd athrawon,
Cyson yn yr ysgol gân ;

6. Ar ol gweithio'r dydd yn galed,
A d'od adref yn dra blin,
Er fod ganddo ffordd bellenig,
Elai'n ddiddig trwy bob hin :
Gwir ofalai am yr achos
Yn ei amgylchiadau oll ;
Ni chai'r pethau mewnol dd'rysu,
Na'r allanol fyn'd ar goll.

7. Bu'n drysorwr y casgliadau,
Ni chaed gwallau yn ei waith ;
Dyled Capel, cyflog Bugail,
Tâl dyeithriaid ar eu taith ;
Ef ddosparthai'r holl fisolion,
Degau dreiglid trwy ei law,
P'le ceir tebyg iddo eto,
Er ei chwilio yma 'thraw ?

8. Annog byddai yn yr eglwys
Bawb i 'mlwybro yn ei le ;
Ac os celai neb ei dd'rysu,
Parod oedd i'w helpio e.
Rhwymai friwiau, cuddiai feiau,
Tirion oedd ei dyner law ;
Er na chodai ddwrn dideimlad,
Cadwai'n wastad bechod draw.

9. Mwyn o dymher, anhunangar,
Geirwir, gonest, diwyd, doeth;
Tad mewn teulu, ffrynd mewn ardal,
Brawd mewn eglwys, cymhwys, coeth;
Dystaw, ffyddlon, diymryson,
Oedd mewn eglwys, ty, a gwlad;
Os rhyw gynhen fyddai'n treiglo,
Ef nis byddai iddi'n dad.

10. 'Maflodd dolur yn ei natur,
Bach tebygid oedd ei bwys,
Eto'n brydlon ymgynghorodd
A'r meddygon mwyaf dwys;
Meddwl pump neu chwech, neu ragor,
O'r rhai penaf trwy'r holl wlad,
Oedd gytun, heb ddim gwahaniaeth,
Mai llem driniaeth roi iachad.

11. Cofio 'rwyf ei ddull a'i eiriau,
'Chydig oriau cyn ei drin
Gan feddygon a'u llym arfau,
Geisient wella'i ddolur blin:
Euthum ato i'w gysuro,
Gwelwn lyfyr yn ei law,
Prudd-der gwedd, a dwys ochenaid,
Dystient feddwl trwm gan fraw.

12. Darllen 'roedd, mewn dwys ystyriaeth,
Draethawd Brooks ar Gristion Mud;
Teimlo'r ydoedd yn ei brofiad
Fod gorthrymder yn y byd.
Gofyn wnes yn gynnil iddo,
A oedd ofn rhag trin ei glwy'?
"'Chydig, (meddai) ofnai'r driniaeth,
Ofnai'r canlyniadau'n fwy."

13. Yna meddai wrth ei faban,
Godai ar ei glun yn syth,
"Gad dy fagu unwaith eto,
F'allai y waith olaf byth."
Gwelwn ar yr awr benodol,
Y ddau feddyg yma'n d'od,

Gyda ffyddlon fwriad tirion,
Gwella'i ddolur oedd eu nod.

14. Lucas fedrus, meddyg campus,
Agos, os nid pena'r oes,
Gydag Adney, gwr o ddoniau,
Gwell y ddau trwy'r wlad nid oes;
Trwy eu gorchwyl aent yn fedrus,
Ceisient flaenu gwraidd y drwg;
Ond trech angau na'u holl ddoniau,
Nis gall medr wrthdroi ei wg.

15. Nis gall Lucas, a'i fawr ddyfais,
Mam a phlant trwy lef a loes
Gyda gweddi eglwys Carmel,
Ddim rhoi estyn at ei oes,
Rhaid cyflawni yn llwyr fanol
Gynghor y Jehofa oll,
Gair na sill, na iod na thipyn,
Byth o hwn nid â ar goll.

16. 'Chydig ddyddiau wedi'r drimaeth,
Codai'r effaith idd ei ben;
D'rysai synwyr, rhwygai natur,
T'w'llai pob peth is y nen:
Pan y celai 'nawr ac eilwaith,
Am funydyn ei iawn bwyll,
Llawn nefoldeb oedd ei yspryd,
Yn ei enaid nid oedd twyll.

17. Eistedd 'roeddwn wrth ei wely,
Ac a'm gafael yn ei law,
Pan oedd yn y dyfroedd dyfnaf,
Cyn i'w yspryd 'hedeg draw.
Teimlwn gynhwrf mawr fel tònau
'N gweithio trwy'i wythenau'n gryf,
Dystiai dd'rysiad rhedfa natur,
A'i fod 'nawr yn ngrym y llif.

18. Deunaw cant a saith a deugain,
Medi'r pedwar dydd ar ddeg,
Gorphen wnaeth ei santaidd yrfa,
'Nol ymdrechu ymdrech dêg;

Aeth ei ysbryd heibio'm hwyneb,
Eto nis canfyddwn ef,
Engyl ganent wrth fyn'd ymaith,
Ni chlyw'm clust o gnawd eu llef.

19. 'Rwy'n dych'mygu im' ei weled
Yn ehedeg heibio'r haul,
Gyda gosgordd o angylion,
Ffyddlon weision Adda'r ail;
Adre, adre i'r trigfanau
Sydd yn barod gan ei Frawd,
Aeth o'i flaen, 'nol ar Galfaria
Iddo rwygo'r llen o gnawd.

20. Lluoedd gasglent idd ei angladd,
Pobloedd yn ymdyru'n llu,
Amryw enwau, ac ardaloedd,
A gyfeirient tua'i dy;
Llanw'r heol, llanw'r brif-ffordd,
Angladd rhyfedd oedd o fawr,
Llanw'r capel mawr yn orlawn,
Ar y lloft ac ar y llawr.

21. Wedi'r bregeth, pan yn cychwyn
Idd ei symud hyd y bedd,
Torai'r dorf i uchel wylo,
Cannoedd oedd yn drist eu gwedd
Swn yr wylo chwerw glywid
Trwy holl gonglau'r eang dy;
Llefai cannoedd, a heillt ddagrau
Dreiglent dros wynebau'r llu.

22. Rhoddwyd ef mewn bedd i orwedd
Hyd yr adgyfodiad mawr,
Pan daw fyny, ar wedd Iesu,
Yn dysgleirio fel y wawr;
Yna nid rhaid arch nac elor
Idd ei ddwyn i'w fythol le;
Cartref hir yw cartref beddrod,
Ond un byth yw cartre'r ne'.

23. Cwyd ei ben, ac edrych fynu,
Ar y cwmwl gwel ei Dduw,

Bloeddia allan mewn gorfoledd,
Wrth fyn'd ato byth i fyw:
Dywed, "Ynddo bu'm hymddiried,
"Pan mewn blinder yn y byd,
"Cadwodd fi, fe'm ceidw bythol,
"Yn ei fynwes gynhes glud."

24. Yn yr awyr cyfarfyddant
Gydag engyl, luoedd maith,
Eistedd gyda Christ ar orsedd,
Barnu'r byd fydd rhan o'i waith;
Gwelai'n cychwyn gyda'r geiriau,
"Fendigedig blant fy Nhad,"
Dorf ddirif i feddu'r deyrnas
Brynwyd iddynt trwy y gwa'd.

25. Torf ddirif o bob rhyw lwythau
Torf ddirif o'bob rhyw iaith;
Os dirif y dorf o unllwyth,
Pa faint yr holl lwythau maith?
Aut yn llu trwy byrth y ddinas,
Pob rhyw un a'i wn yn wyn,
Yn eu llaw delynau auraidd,
Gyda'r tannau'n hwylus dyn.

26. Er mor fawr y dorf o'r ddaear,
Bach fydd wrth y torfau'n nghyd
Gesglir yno o'r holl fydoedd,
Trwy'r eangder mawr i gyd,
I breswylio'n un gymdeithas,
O fewn dinas, nefol wlad,
Yn y llawer o drigfanau
Barotowyd yn nhy'r Tad.

27. Yn eu mysg mae John yn gwledda,
Gyda choron ar ei ben,
Gwisgoedd gwyn, a phalm, a thelyn,
Gyda'r Oen, tu fewn y llen.
Ond mae'm meddwl 'nawr yn dychwel
Lawr o wych drigfanau'r nef,
At ei weddw a'i ymddifaid,
Ar y llawr, yn drist eu llef.

28. Mary, Mary, dy wan feddwl!
Llethu mae gan lawer tòn,
Ofni gormes, cam, a thlodi,
Ofni'r 'storom draw a hon;
Gweled tyaid o dy gwmpas.
O amddifaid gweiniaid mân,
Rhai rhy ieuaine i amgyffred
Dim am alar, rhagor cân.

29. 'Lisa, Martha, a Maria,
John ac Ann, a William llon,
Henry mwynlan, faban egwan,
'R hwn a chwerddi ar y fron.
Tad amddifaid sydd yn gweled
Eich amgylchiad, a'ch holl raid,
Gweina'n dadol ofal manol,
Yn wastadol o eich plaid.

30. Cafwyd colled yn yr eglwys,
'Welai neb yn llanw'i le,
Colled dirfawr ga'dd ei deulu,
Sydd a'u dagrau'n afon gre'.
Yn eu mysg offrymai weddiau,
Cyd-chwedleuent am y gwa'd,
Drylliog oedd ei iraidd yspryd,
Wrth son am drugaredd rad.

31. Ai cyn drygfyd yr â'r cyfiawn
O'r tymhestlog fyd i'r nef?
Ai i orphwys cyn rhyw ofid,
Mewn tangnefedd, dygwyd ef?
A oes cwmwl du uwch Carmel?
A oes neb ystyria hyn?
Ai palfalu mewn tywyllwch
Bydd yr eglwys yn y glyn?

32. A yw sanctaidd ddynion duwiol,
Trwy'r ardaloedd, yn prinhau?
Er cael lluaws mewn eglwysi,
Gall fod gras yn mawr leihau;
Yspryd iach, er pen tra goleu,
Rhyfyg dibris yn lle ffydd,

Cas yn nhrigle cariad brawdol,
Meddwl bydol nos a dydd.

33. Ior Goruchaf, Llywiwr bydoedd,
Paid a gadu dy fwyn braidd;
Bydd yn Dad, a Nawdd, a Chysgod,
Cadw'r wyn rhag palfau'r blaidd;
Trwy y Gwr fu ar Galfaria,
Edrych arnom yn y gwa'd,
Tywallt yspryd gras a gweddi,
Yspryd ffydd a santeiddhad.

34. Cofia'r eglwys lle bu'n aros,
Cofia'r weddw bruddaidd drist;
Idd ei luaws plant ymddifaid
Bydd yn nodded, er mwyn Crist,
Rhag pob eisiau a phob gwasgfa,
Cam, a gormes gelyn cas,
Cadw'r teulu oll mewn cysur,
Golch eu henaid trwy ras.

35. Cofia eto deulu'r ddaear,
Rhwyga'r nef, a disgyn lawr,
Mewn grymusder gyda'th weision,
Tywallt argyhoeddiad mawr;
Cwyd y meibion yn lle'r tadau,
(Mae ein gobaith weled hyn;)
Llanw'th eglwys â rhai santaidd,
Ffrwyth y pwrcas ar y bryn.

36. Dyro'r golofn dân a'r cwmwl,
Idd ei harwain ar ei thaith,
Bydd yn fur o dân o'i hamgylch,
Nes myn'd o'r anialwch maith:
Boed "Tywysog llu yr Arglwydd"
Yn y rhyfel iddi'n ben;
Ar ol gorphwys, caned iddo
Haleliwia byth—Amen.

---

*David Stephenson, Argraffydd, Brynmawr.*